

Fel yr addaswyd gan Ddeddf Cwmnïau 2006

## **Ffurflenni Blynyddol**

**GBA2 CYM**

**Mai 2009**

**Fersiwn 15**

**BERR**

**Adran Busnes,  
Menter a Diwygio Rheoleiddio**

Mae'r canllaw hwn ar gael mewn ffurfiau eraill gan gynnwys Braille, print mawr a thâp clywedol. Am fanylion pellach [gweler ein gwefan](#), e-bostiwch ein [Hadran Ymholiadau](#) neu ffoniwch ein Canolfan Gysylltu ar 0303 1234 500.

Rhaid bod yn ymwybodol o'r canlynol wrth ddarllen y nodiadau canllaw hyn:

Mae rhai (ond nid y cyfan) o ddarpariaethau Deddf Cwmnïau 2006 wedi dod i rym. Gan hynny, mae rhai o ddarpariaethau Deddf Cwmnïau 1985 yn dal yn berthnasol. Rydym wedi ceisio gwneud yn glir drwy'r holl nodiadau hyn, gymaint â phosib, pa Ddeddf sy'n berthnasol. Os hoffech chi wybod pa ddarpariaethau yn y Deddfau priodol sydd mewn grym, galwch heibio [i'n gwefan](#). Mae dolen ar ein gwefan hefyd i wefan [BERR](#) (Yr Adran Busnes, Menter a Diwygio Rheoleiddio) lle gallwch chi weld rhagor o wybodaeth. Mae rhai darpariaethau yn y Ddeddf newydd yn amodol ar drefniadau trosiannol. Cyhyd â phosib, eglurwn hyn yn y canllaw presennol a rhown fanylion ar ein gwefan.

Mae un cam olaf yng ngweithrediad Deddf Cwmnïau 2006 wedi ei drefnu ar gyfer Hydref 2009. Byddwn yn diweddarau unrhyw nodiadau canllaw a effeithir gan y gweithrediadau hynny ar y pryd. Efallai yr hoffech chi gadw golwg ar ein gwefan hefyd lle byddwn yn cyhoeddi rhagor o wybodaeth wrth i'r broses o weithredu barhau, er mwyn ichi gael mynediad at y newyddion diweddaraf.

Tan fis Hydref 2009, mae'r nodiadau canllaw hyn yn gymwys yn unig i gwmnïau wedi eu ffurfio ym Mhrydain Fawr (Cymru, Lloegr a'r Alban). Bwriedir wedyn i'r system ar wahân ar gyfer Gogedd Iwerddon ymdoddi i system gyfunol ar gyfer y Deyrnas Unedig i gyd.

## Cynnwys

### Cyflwyniad

1. Llenwi ffurflen flynyddol
2. Ansawdd dogfennau papur
3. Gwybodaeth bellach

*Canllaw yn unig yw hwn a dylid ei ddarllen ar y cyd â'r ddeddfwriaeth berthnasol.*

- Deddf Cwmnïau 1985 a Deddf Cwmnïau 1989;
- Deddf Cwmnïau 2006;
- Rheoliadau Deddf Cwmnïau 1985 (Ffurflen Flynyddol) a Chwmnïau (Prif Weithgareddau Busnes) (Diwygiad) 2008.

### Cyflwyniad

Mae'r cyhoeddiad hwn yn dweud wrthy ch chi am y ffurflen flynyddol y mae'n rhaid i gwmni ei chyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau bob blwyddyn.

Mae ffurflen flynyddol yn giplun o wybodaeth gyffredinol am gyfarwyddwyr, cyfeiriad swyddfa gofrestredig, cyfranddeiliaid a chyfalaf cyfrannau'r cwmni.

Os ffeiliwch y ffurflen flynyddol yn hwyr, neu os methwch â ffeilio un, gellir erlyn y cwmni a'i gyfarwyddwr/wyr a'i ysgrifennydd.

### Rhestr Termâu

Yn y canllaw hwn, mae'r ystyron canlynol i'r termâu a restrir:

ystyr “**cwmni heb ei fasnachu**” yw cwmni na chaiff unrhyw rai o'i gyfrannau mo'u derbyn i'w masnachu mewn marchnad wedi ei rheoleiddio;

ystyr “**cwmni masnachedig**” yw cwmni y caiff unrhyw rai o'i gyfrannau eu derbyn i'w masnachu mewn marchnad wedi ei rheoleiddio;

ystyr “**marchnad wedi ei rheoleiddio**” yw marchnad a gaiff ei chynnwys mewn rhestr wedi ei llunio gan un o wladwriaethau'r AEE yn unol ag Erthygl 47 o Gyfarwyddeb 2004/39EC gan Senedd a Chyngor Ewrop ar 21 Ebrill 2004 yng nghyswllt marchnadoedd ar gyfer offerynnau ariannol (Sylwer: nid yw AIM yw farchnad wedi ei rheoleiddio); ac

ystyr “**cyfnod cyfleu manylion**”, gyda golwg ar ffurflen flynyddol, yw’r cyfnod sy’n dechrau yn union ar ôl diwedd y cyfnod blaenorol y cyflwynwyd manylion ar ei gyfer (neu, yn achos y ffurflen gyntaf, y cyfnod sy’n dechrau gyda chorfforiad y cwmni) ac sy’n dod i ben ar ddydd olaf cyfnod y manylion.

## Pennod 1

### Llenwi ffurflen flynyddol

**Sylwer:** Y ffordd hawsaf a rhataf I lenwi a ffeilio'ch ffurflen flynyddol yw drwy ddefnyddio'n gwasanaethau Software Filing neu WebFiling. Gallwch bellach ffeilio rhai dogfennau yn Gymraeg drwy ddefnyddio'n gwasanaeth WebFiling. Am ragor o wybodaeth, [ewch i'n gwefan](#) os gwelwch yn dda.

#### 1. Pa gwmnïau y mae'n rhaid iddyn nhw anfon ffurflen flynyddol i Dŷ'r Cwmnïau?

Rhaid i bob cwmni gyflwyno ffurflen flynyddol i Dŷ'r Cwmnïau o leiaf unwaith bob 12 mis. Bydd cyfarwyddwr/cyfarwyddwyr a, lle bo hynny'n gymwys, ysgrifennydd y cwmni'n gyfrifol am sicrhau bod y ffurflen flynyddol:

- yn cael ei chyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau o fewn 28 diwrnod i ddiwedd y flwyddyn gyntaf ar ôl ei gorffori, neu i ddiwedd y flwyddyn ar ôl dyddiad diwallu'r ffurflen flynyddol ddiwethaf; ac
- yn rhoi golwg wir ar fframwaith rheoli'r cwmni, ac ar ei gyfalaf (lle bo hynny'n gymwys), ar y dyddiad diwallu.

**Cofiwch:** Mae peidio â chyflwyno ffurflen flynyddol y cwmni o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad diwallu yn dramgwydd troseddol y gellir erlyn ysgrifenyddion a chyfarwyddwyr cwmni amdano.

#### 2. Beth yw ffurflen flynyddol (Ffurflen 363)?

Mae ffurflen flynyddol yn giplun o wybodaeth arbennig am y cwmni ar y dyddiad diwallu ([gweler cwestiwn 3](#)). Mae'n wahanol i gyfrifon blynyddol y cwmni. Rhaid i ffurflen flynyddol gynnwys yr wybodaeth ganlynol:

- enw'r cwmni;
- ei rif cofrestru;
- y math o gwmni ydyw - er enghraifft, preifat neu gyhoeddus;
- cyfeiriad swyddfa gofrestredig y cwmni;
- y cyfeiriad lle cedwir rhai o gofrestri'r cwmni, os na chedwir mohonynt yn y swyddfa gofrestredig;
- prif weithgareddau busnes y cwmni ([gweler Prif Weithgareddau Busnes](#));
- enw a chyfeiriad ysgrifennydd y cwmni, lle bo hynny'n gymwys;

- enw, cyfeiriad preswyl arferol, dyddiad geni, cenedligrwydd a galwedigaeth fusnes pob un o gyfarwyddwyr y cwmni;
- diwrnod ola'r cyfnod y mae'r ffurflen flynyddol yn ei ddiwallu (y dyddiad diwallu).

Os oes gan y cwmni gyfalaf cyfrannau, rhaid i'r ffurflen flynyddol gynnwys hefyd:

- Wybodaeth am y cyfalaf cyfrannau a gafodd ei ddsbarthu;
- Manylion y cyfranddeiliaid.

Mewn rhai enghreifftiau, gall gwybodaeth am ymgymeriadau cysylltiedig gael ei hatodi wrth y ffurflen flynyddol.

### 3. Beth yw'r dyddiad diwallu?

Dyma'r dyddiad pryd mae'n rhaid i holl wybodaeth y ffurflen flynyddol fod yn gywir. Fel arfer, daw'r dyddiad diwallu flwyddyn ar ôl:

- corffori'r cwmni; neu
- ddyddiad diwallu'r ffurflen flynyddol flaenorol a gafodd ei chofrestru yn Nhŷ'r Cwmnïau.

### 4. Ble galla i gael ffurflen flynyddol?

Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn anfon llythyr i swyddfa gofrestredig eich cwmni i'ch atgoffa pan fydd eich ffurflen flynyddol yn ddyledus.

Mae'n rhoi gwybod sut i ffeilio'r ffurflen yn electronig drwy ddefnyddio'n gwasanaethau Software Filing neu WebFiling, gan mai dyma'r opsiwn hawsaf.

Fodd bynnag, os nad oes gennych chi'r cyfleustra i ffeilio ar-lein, gallwch archebu copi papur o'r ffurflen flynyddol drwy ffonio'n Canolfan Cysylltu ar 0303 1234 500, lawrlwytho [ffurflen 363a](#) wag neu fynnu copi wrth ymweld ag unrhyw un o'n swyddfeydd yn bersonol.

Am ragor o wybodaeth, [galwch heibio i'n gwefan](#).

#### **Cyflwyno manylion cyfarwyddwyr a chyfeiriad y swyddfa gofrestredig drwy'r dull electronig:**

#### **Cynllun PROOF (PRO tected On-line Filing) y Cofrestrydd**

Mae cyfarwyddwyr yn dal safle pwysig o fewn y cwmni: mae ganddyn nhw'r pŵer i brynu, a gwneud trefniadau credyd ar ran y cwmni. Yn yr un modd, mae cyfeiriad y swyddfa gofrestredig yn bwysig am mai dyma lle'r anfonir pob gohebiaeth swyddogol.

Caiff cofnodion Tŷ'r Cwmnïau eu defnyddio weithiau i wirio cyfreithlonrwydd cwmni a'i gyfarwyddwyr cyn caniatáu credyd neu fenthyciadau, felly mae'n bwysig bod y cofnodion yn gywir. **Bydd cwmnïau'n agored i dwyll ariannol os caiff y bobl anghywir eu cynnwys ar y cofnod fel cyfarwyddwyr cwmni neu os caiff cyfeiriad swyddfa gofrestrdig ffug ei ffeilio.**

I atal twyllwyr rhag ymhoni'n gyfarwyddwyr cyfreithlon, mae Tŷ'r Cwmnïau yn cynnig i gwmnïau system ddiogel a chwbl electronig yn rhad ac am ddim ar gyfer rhoi gwybod am newidiadau o ran cyfarwyddwyr a chyfeiriad y swyddfa gofrestrdig. Os dewiswch chi roi gwybod am y manylion hyn drwy'r dull electronig yn unig, fe gânt eu diogelu drwy godau electronig ac ni fyddwn yn derbyn hysbysiadau gan eich cwmni wedi eu cyflwyno ar unrhyw ddiwyg arall.

Bydd rhaid ichi gwblhau ffurflen 'Opt-in'(PR1) a chytuno i'r telerau ac amodau i sicrhau **mai dim** ond os cânt eu cyflwyno drwy'r dull electronig diogel a byth ar ffurflen bapur y bydd Tŷ'r Cwmnïau'n derbyn unrhyw newidiadau o ran cyfarwyddwyr neu gyfeiriad y swyddfa gofrestrdig. Mae'r ffurflen 'Opt-in' ac amodau a thelerau ar gael drwy'n gwefan neu drwy ffonio 0303 123 4500. Rhaid i'r ffurflen wedi'i chwblhau cael ei phostio nôl i Dŷ'r Cwmnïau. Mae'r gwasanaeth hwn yn wirfoddol; gallwch ddewis gadael unrhyw adeg a bydd Tŷ'r Cwmnïau'n mynd yn ôl i dderbyn hysbysiadau'ch cwmni'n electronig neu ar ffurflenni papur.

O ganol 2009, bwriedir newid y broses wedi'i seilio ar bapur hon i system electronig, felly unwaith y byddwch wedi cytuno i delerau ac amodau'r cynllun fe allwch gofrestru neu dynnu'n ôl yn electronig o PROOF o fewn tudalennau gwe priodol y gwasanaeth WebFiling.

## **5. A fydd Tŷ'r Cwmnïau yn rhagargraffu ar y ffurflen flynyddol y manylion sydd wedi eu ffeilio'n barod?**

Na fydd. Bydd Tŷ'r Cwmnïau yn rhoi heibio i gynhyrchu ffurflen 363s 'ôl-a-blaen' neu ragargraffedig ar gyfer cyfnodau'n dod i ben ar neu wedi 1 Hydref 2008. Ni fydd ffurflen flynyddol benodedig mwyach ar ôl y ddydiad hwnnw.

Yn lle hynny, cafodd ffurflen 363s ei hailbennu. Mae'r ffurflen newydd yn cynnwys newidiadau i'r wybodaeth y mae'n rhaid ichi ei rhoi am eich cyfranddeiliaid – gweler cwestiwn 6.

Rhaid parhau i ddefnyddio ffurflen gyfredol 363a neu 363s ar gyfer cyfnodau'n dod i ben cyn 1 Hydref 2008.

## **6. Beth yw'r newidiadau i ffurflen 363a?**

Dim ond i gwmnïau sydd am gyflwyno ffurflen flynyddol yn bodloni cyfnod yn dod i ben ar neu wedi 1 Hydref 2008 y mae ffurflen newydd 363a ar gael. Cafodd y ffurflen ei newid i gynnwys dwy restr gyfranddeiliaid wahanol:

- bydd **Atodiad A** yn cynnwys enwau cyfranddeiliaid pob cwmni preifat a phob **cwmni cyhoeddus anfasnachedig**. Rhaid **peidio** â chynnwys y cyfeiriadau ar Atodiad A;
- bydd **Atodiad B** yn cynnwys enwau a chyfeiriadau'r cyfranddeiliaid hynny yn unig sy'n dal o leiaf 5% o'r cyfrannau dosbarthedig mewn unrhyw fath neilltuol o gyfrannau **cwmni cyhoeddus masnachedig**. Rhaid peidio â chynnwys unrhyw fanylion eraill yng nghyswllt cyfranddeiliaid ar Atodiad B.

Rhaid i'r ffurflen gynnwys hefyd gadarnhad a oedd y cwmni'n un cyhoeddus masnachedig unrhyw adeg yn ystod cyfnod y ffurflen honno.

## 7. Llenwi ffurflen flynyddol 363a

Nid yw ffurflen 363a yn cynnwys unrhyw wybodaeth gwmni wedi ei hargraffu ymlaen llaw.

Dylai'r holl fanylion a rowch ar Ffurflen 363a gadarnhau'r wybodaeth am y cwmni sydd eisoes ar gofnod cyhoeddus Tŷ'r Cwmnïau ar y dyddiad diwallu - ar wahân i wybodaeth am gyfranddeiliaid. Mae'r manylion y dylech eu rhoi wedi eu nodi dan gwestiwn 2 o'r canllaw hwn. Dim ond drwy anfon un neu ragor o'r ffurflenni statudol canlynol gyda'r ddogfen y cewch newid y manylion:

- newid cyfeiriad y swyddfa gofrestrdedig. Defnyddiwch Ffurflen 287;
- penodi cyfarwyddwr neu ysgrifennydd i'r cwmni. Defnyddiwch Ffurflen 288a;
- newid manylion - er enghraifft, cyfeiriad - swyddog i'r cwmni. Defnyddiwch Ffurflen 288c;
- ymddiswyddiad swyddogion i'r cwmni. Defnyddiwch Ffurflen 288b;
- rhoi gwybod am y cyfeiriad lle cedwir y gofrestr aelodau neu newid y cyfeiriad hwnnw. Defnyddiwch Ffurflen 353;
- rhoi gwybod am y cyfeiriad lle cedwir y gofrestr ddyledebwyr neu newid y cyfeiriad hwnnw. Defnyddiwch Ffurflen 190;
- clustnodi cyfrannau newydd. Defnyddiwch Ffurflen 88(2);

- newid cyfanswm cyfalaf cyfrannau'r cwmni. (Gweler cwestiwn 9.)

Mae'r ffurflenni hyn ar gael drwy'n gwasanaethau Software Filing neu WebFiling.

**Nodyn:** Fe welwch y gofynion o ran cyfalaf cyfrannau wedi eu hegluro yng nghwestiynau 8-11.

**Ni chofrestrwn ffurflen flynyddol 363a os dengys wybodaeth sy'n wahanol i'r cofnod cyhoeddus (ar wahân i newidiadau i brif weithgareddau busnes y cwmni neu fanylion y cyfranddeiliaid) oni roddwyd gwybod inni am y newid ar y ffurflen statudol briodol.**

## 8. Pa wybodaeth sydd angen ar Dŷ'r Cwmnïau am gyfalaf cyfrannau?

I gwmnïau sydd â chyfalaf cyfrannau, byddwch cystal â nodi ar gyfer pob math o gyfrannau a ddosbarthwyd:

- enw'r math o gyfrannau. Er enghraifft, cyfrannau cyffredin neu flaengyfrannau;
- cyfanswm y cyfrannau a gafodd eu dosbarthu ymhlith cyfranddeiliaid erbyn dyddiad diwallu'r ffurflen; a hefyd
- cyfanswm gwerth nominal y cyfrannau o'r math hwnnw a gafodd eu dosbarthu erbyn dyddiad y ffurflen.

**Nodyn:** Cyfanswm gwerth nominal y cyfrannau yw cyfanswm gwerth nominal neu wynebwerth y cyfrannau heb gynnwys unrhyw bremiwm.

Os yw'r cwmni wedi trosi cyfrannau'n stoc, rhowch yr wybodaeth gyfatebol am y stoc hwnnw, gan nodi swm y stoc yn lle nifer a gwerth nominal y cyfrannau.

## 9. Sut dylwn i ddweud wrth Dŷ'r Cwmnïau os yw manylion y cyfalaf cyfrannau wedi newid?

Os yw'r cwmni wedi newid ei gyfalaf cyfrannau drwy:

- ddiwygio'i fframwaith, e.e. cyfuno neu isrannu; a/neu
- gynyddu cyfanswm ei werth nominal;

yna bydd raid ichi lenwi a dychwelyd un neu ragor o'r ffurflenni canlynol i Dŷ'r Cwmnïau gyda'r ffurflen flynyddol:

- **Ffurflen 88(2)**: Clustnodi cyfrannau newydd;

- **Ffurflen 122:** Rhoi gwybod am gyfuno, rhannu, isrannu, adbrynu neu ganslo cyfrannau, neu drosi neu aildrosi stoc yn gyfrannau;
- **Ffurflen 123:** Rhoi gwybod am gynyddu'r cyfalaf nominal;\* (mae'r ffurflen hon ar gael drwy'n gwasanaethau Software Filing neu WebFiling);
- **Ffurflen 128(1):** Rhoi gwybod am hawliau i gyfrannau wedi eu clustnodi na sonnir amdany'n nhw ym memorandwm nac erthyglau'r cwmni;\*
- **Ffurflen 128(3):** Rhoi gwybod am amrywio hawliau i gyfrannau wedi eu clustnodi na sonnir amdany'n nhw ym memorandwm nac erthyglau'r cwmni;\*
- **Ffurflen 128(4):** Rhoi gwybod am briodoli enw newydd i unrhyw ddsbarth o gyfrannau ac eithrio drwy ddiwygio memorandwm neu erthyglau'r cwmni;\*
- **Ffurflen 169:** Datganiad gan y cwmni i brynu ei gyfrannau ei hun.

\*Bydd angen hefyd gopi o'r penderfyniad priodol gan y cwmni yn awdurdodi'r newid.

Os hoffech chi wybodaeth bellach am yr amgylchiadau ar gyflwr cyflwyno'r ffurflenni hyn (ac eraill) i Dŷ'r Cwmniau, ffoniwch 0303 123 4500.

## 10. Pryd mae'n rhaid imi restru holl gyfranddeiliaid y cwmni?

Rhaid i gwmni preifat a chwmni cyhoeddus anfasnachedig sydd â chyfalaf cyfrannau ddarparu 'rhestr lawn' o'i holl gyfranddeiliaid ar:

- ei ffurflen flynyddol gyntaf wedi ei gorffori; a hefyd
- bob yn drydedd ffurflen flynyddol wedi iddo ddarparu rhestr lawn.

Dim ond newidiadau i'r wybodaeth am gyfranddeiliaid a ddaeth i fod yn ystod y flwyddyn dan sylw (cyfnod y ffurflen) y dylid eu nodi ar ffurflenni blynyddol y ddwy flynedd yn y canol - hynny yw, cyfrannau a gafodd eu trosglwyddo a manylion ynghylch cyfranddeiliaid a ddaeth yn gyfranddeiliaid neu a beidiodd â bod yn gyfranddeiliaid

Rhaid i gwmni cyhoeddus masnachedig beidio byth â rhoi rhestr lawn o'i holl gyfranddeiliaid, dim ond y rhai oedd yn dal o leiaf 5% o'r cyfrannau dosbarthedig unrhyw adeg yn ystod cyfnod y ffurflen.

### **11. Beth mae rhestr lawn o gyfranddeiliaid cwmni preifat a chwmni cyhoeddus anfasnachedig yn ei gynnwys?**

Rhaid i ffurflen flynyddol 'rhestr lawn' ar gyfer cwmni preifat a chwmni cyhoeddus anfasnachedig gynnwys yr wybodaeth ganlynol am gyfranddeiliaid y cwmni:

- enw a chyfeiriad pob un o gyfranddeiliaid y cwmni ar y dyddiad diwallu;
- enw a chyfeiriad pob cyfranddeiliad a beiodd â bod yn gyfranddeiliad ers y dyddiad diwallu o dan y ffurflen flynyddol ddiwethaf (neu yn achos ffurflen flynyddol gyntaf, ers corffori'r cwmni);
- nifer y cyfrannau o bob dosbarth a ddelir gan bob cyfranddeiliad ar y dyddiad diwallu ar gyfer y ffurflen flynyddol; a hefyd
- y dyddiad cofrestru a nifer y cyfrannau o bob dosbarth a gafodd eu trosglwyddo gan bob cyfranddeiliad neu gyn-gyfranddeiliad ers y dyddiad diwallu o dan y ffurflen flynyddol ddiwethaf (neu yn achos ffurflen flynyddol gyntaf, ers corffori'r cwmni).

Ni fydd Tŷ'r Cwmnïau yn derbyn ffurflen flynyddol yn bodloni cyfnod yn dod i ben ar ôl 30 Medi 2008 lle cynhwysir cyfeiriadau holl gyfranddeiliaid y cwmni. Byddwn yn dychwelyd y ffurflen i'r cwmni os llenwir yr atodiad anghywir neu os yw'n cynnwys y manylion anghywir.

### **12. Beth mae rhestr lawn o gyfranddeiliaid cwmni cyhoeddus masnachedig yn ei gynnwys?**

Rhaid i gwmni cyhoeddus masnachedig ddarparu rhestr o'i holl gyfranddeiliaid oedd yn dal 5% neu fwy o'r cyfrannau dosbarthedig yn ystod cyfnod y ffurflen. Rhaid i'r rhestr gynnwys yr wybodaeth ganlynol am bob un o'r cyfranddeiliaid hyn:

- yr enw a'r cyfeiriad;
- nifer y cyfrannau o fewn pob dosbarth a ddelid ar ddyddiad diwallu'r ffurflen flynyddol;
- dyddiad y cofrestru a nifer y cyfrannau o fewn pob dosbarth a gafodd eu trosglwyddo gan y cyfranddeiliad yn ystod cyfnod y ffurflen; a
- dyddiad y cofrestru a nifer y cyfrannau o fewn pob dosbarth a gafodd eu trosglwyddo i'r cyfranddeiliad yn ystod cyfnod y ffurflen.

### **13. Oes ffyrdd eraill o ddarparu manylion ynghylch cyfranddeiliaid unigol?**

Drwy wneud trefniadau ymlaen llaw, caiff cwmnïau gyflwyno gwybodaeth am gyfranddeiliaid i Dŷ'r Cwmnïau ar ddiwyg arall ar wahân i'r ffurflen a ddarperir - er enghraifft, ar ddisg llipa neu CD-ROM. Hwyrach y bydd cwmnïau preifat a rhai cyhoeddus anfasnachedig sydd â nifer fawr o gyfranddeiliaid yn ei gweld yn fwy cyfleus darparu rhestr lawn o'r cyfranddeiliaid gyda phob ffurflen flynyddol – ond rhaid i'r rhestr beidio â chynnwys cyfeiriadau'r cyfranddeiliaid.

Os hoffech chi gyflenwi'r rhestr o gyfranddeiliaid y cwmni ar ddiwyg arall ar wahân i'r atodiadau a ddarperir, gweler [Pennod 2, cwestiwn 4](#) am wybodaeth bellach.

### **14. Pryd mae'n rhaid cyflwyno'r ffurflen flynyddol i Dŷ'r Cwmnïau?**

Rhaid i gwmnïau gyflwyno ffurflen flynyddol i Dŷ'r Cwmnïau o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad diwallu sydd wedi ei nodi ar y ffurflen. Mae ffi flynyddol prosesu dogfennau o £30, neu £15 i ddefnyddwyr ein gwasanaethau Software Filing neu WebFiling, sy'n daladwy wrth ffeilio'r ffurflen flynyddol. I gwmnïau sy'n ffeilio ffurflen flynyddol ar bapur, dylid gwneud y siec yn daladwy i "Tŷ'r Cwmnïau", gan nodi rhif y cwmni ar y cefn.

## **Pennod 2**

### **Ansawdd dogfennau papur**

#### **1. Beth sy'n digwydd i ddogfennau a gaiff eu hanfon i Dŷ'r Cwmnïau?**

Byddwn yn sganio'r dogfennau a'r ffurflenni a gyflwynwch chi i Dŷ'r Cwmnïau i greu delwedd electronig. Wedyn, caiff y dogfennau gwreiddiol eu rhoi i gadw a defnyddir y ddelwedd electronig fel dogfen waith.

Wrth i aelod o'r cyhoedd adolygu cofnod y cwmni, fe wêl y ddelwedd electronig wedi ei hatgynhyrchu ar-lein. Felly, mae'n bwysig nid yn unig bod y gwreiddiol yn ddarllenadwy ond hefyd y gellir ei ddefnyddio i greu copi clir.

Mae'r bennod hon yn gosod ychydig o ganllawiau ansawdd i'w dilyn wrth baratoi dogfen i'w ffeilio yn Nhŷ'r Cwmnïau.

#### **2. Beth sy'n digwydd os nad yw fy nogfennau'n bodloni'r canllawiau?**

Mae adran 707B o Ddeddf Cwmnïau 1985 yn caniatáu i Dŷ'r Cwmnïau wrthod dogfennau a gafodd eu cyflwyno drwy'r dull electronig lle na ellir mo'u cipio i greu delwedd, gan roi rhybudd yn dweud pam eu bod nhw'n annerbyniol. Rhaid cyflwyno copi derbyniol o fewn 14 diwrnod i'r rhybudd (fel arall, byddwn yn ystyried bod y gwreiddiol heb ei gyflwyno).

### 3. Sut dylai dogfennau gael eu gosod?

Rhaid i bob dogfen bapur a gaiff ei chyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau nodi rhif cofrestru'r cwmni mewn lle amlwg, a rhaid iddi gydymffurfio ag unrhyw ofynion a bennir gan y Cofrestrydd gyda golwg ar eglurder y ddogfen honno.

Yn gryno, dylai dogfennau fod ar bapur gwyn plaen o faint A4 yn pwysu rhwng 80gms a 100gms gyda gorffeniad di-sglein. Dylai'r testun fod yn ddu, yn glir, yn ddarllenadwy ac o ddwysedd cyson. Rhaid i lythrennau a rhifau beidio â bod yn llai nag 1.8mm o uchder, gyda thrwch llinell sydd heb fod yn llai na 0.25mm.

#### **Wrth lenwi ffurflen:**

- defnyddiwch inc du neu deip du;
- defnyddiwch lythrennau cryf (mae rhai wynebau teip a phinnau ysgrifennu tenau cain yn rhoi copïau o ansawdd gwael);
- peidiwch ag anfon copi carbon;
- peidiwch â defnyddio matrices-argraffydd; a hefyd
- cofiwch – gall ffotogopïau roi arlliw llwyd na fydd yn sganio'n dda.

#### **Wrth gwblhau dogfennau eraill, cofiwch:**

- y pwyntiau uchod ynglŷn â llenwi ffurflenni;
- defnyddio papur A4 gydag ymyl hael;
- eu darparu ar wedd portread (hynny yw, gyda'r ymyl byrraf ar draws y brig);
- cynnwys rhif y cwmni ar y dde yng nghornel ucha'r tudalen cyntaf.

**Pwysig:** gall inc lliw golli gafael (ddiflannu) wrth sganio dogfen i greu delwedd. I atal hyn, gofalwch bob amser ddefnyddio inc du i lenwi a llofnodi pob dogfen.

### 4. Beth yw'r problemau mwyaf cyffredin i'w hosgoi?

#### ***Cyfrifon sglein***

Os ydych chi'n cynhyrchu cyfrifon sglein wedi eu hargraffu mewn lliwiau, byddwch cystal â chadw'r rheiny'n ôl i'ch cyfranddeiliaid ac eraill a fydd yn eu gwerthfawrogi. Mae arnon ninnau angen testun du ar bapur gwyn gyda gorffeniad di-sglein o hyd. Mae fersiwn teipiedig heb ei rwymo neu broflen yr argraffwyr yn ddelfrydol, ar yr amod bod y llofnodion angenrheidiol wedi eu cynnwys.

## **Rhestrï cyfranddeiliaid**

Mae'n gofynion o ran ansawdd dogfennau yr un mor gymwys i'r rhestrï o gyfranddeiliaid a gaiff eu cyflwyno gyda ffurflenni blynyddol a ffurflenni clustnodi.

Os allbrintiau cyfrifiadur yw'r rhain, mae'n hanfodol i ansawdd yr argraffu fod yn dda. Cawn broblemau arbennig gyda rhestrï wedi eu hargraffu ar bapur cyfrifiadur â llinellau gwyrdd. Gallwn drin rhestrï cyfranddeiliaid ar bapur hyd at 14.5" x 12".

Byddwn yn derbyn dogfennau a gaiff eu cyflwyno ar rai mathau o *microfiche* (*comfiche*) wedi ei greu drwy gyfrifiadur ar sail prif gopi du – fel dewis arall yn lle papur – ar yr amod bod modd inni eu hatgynhyrchu ar ein peiriannau diaso.

Derbyniwn restrau cyfranddeiliaid maith ar ddisgiau CD-ROM, DVD-ROM a disgiau lliipa.

## **Pennod 3 Gwybodaeth bellach**

### **1. Sut dylwn i anfon gwybodaeth at y Cofrestrydd?**

Gall ffurflenni blynyddol a dogfennau eraill a ffeilir yn gyffredin gael eu cyflwyno i'r Cofrestrydd yn electronig. O fis Mehefin 2008 bydd cwmnïau yn gallu ffeilio rhai dogfennau yn Gymraeg drwy ddefnyddio'n gwasanaeth WebFiling. Am ragor o wybodaeth ynglŷn â defnyddio'n gwasanaethau Webfiling a Ffeilio Electronig, ymwelwch ag [www.companieshouse.gov.uk](http://www.companieshouse.gov.uk)

Gallwch chi hefyd gyflwyno dogfennau â llaw (yn bersonol neu drwy negesydd), gan gynnwys y tu allan i oriau swyddfa, dros wyliau banc a thros y penwythnos, i Gaerdydd, Llundain a Chaeredin.

Fel dewis arall, gallwch chi gyflwyno dogfennau drwy'r post, drwy'r Gwasanaeth Cyfnewid Dogfennau (DX) neu drwy'r Post Cyfreithiol (LP) yn yr Alban.

Os anfonwch chi ddogfennau, byddwch cystal â'u cyfeirio i:

#### **Ar gyfer cwmnïau wedi eu corffori yng Nghymru a Lloegr:**

Tŷ'r Cwmnïau  
Ffordd y Goron  
Caerdydd CF14 3UZ  
  
DX33050 Caerdydd 1

#### **Ar gyfer cwmnïau wedi eu corffori yn yr Alban:**

Companies House  
4th Floor  
Edinburgh Quay 2  
139 Fountainbridge  
Edinburgh EH3 9FF  
DX ED235 Edinburgh 1  
neu  
LP-4 Edinburgh 2

Wrth ddefnyddio'n gwasanaethau ffeilio ar-lein, cewch gydnabyddiaeth awtomatig drwy e-bost fod eich dogfennau wedi dod i law.

Os ydych yn anfon dogfennau drwy'r post, drwy negesydd neu drwy'r Gwasanaeth Cyfnewid Dogfennau (DX) a'ch bod yn dymuno cael derbynneb, bydd Tŷ'r Cwmnïau yn darparu cydnabyddiaeth os amgaewch chi gopi o'ch llythyr eglurhaol gydag amlen stampiedig ac arni eich cyfeiriad dychwelyd.

Bydd y côd bar a roddwn ar eich llythyr yn cyfleu'r dyddiad dod i law ac fe ddychwelwn y copi yn yr amlen a ddarparwch.

**Sylwer:** nid yw cydnabyddiaeth dod i law yn golygu bod dogfen wedi ei derbyn i'w chofrestru yn Nhŷ'r Cwmnïau.

**Sylwer:** Nid yw Tŷ'r Cwmnïau yn derbyn cyfrifon na dogfennau statudol eraill dros beiriant ffacs.

## 2. Ga i ffeilio dogfennau mewn ieithoedd eraill?

Fel arfer, yn Saesneg y mae'n rhaid ichi ffeilio dogfennau gyda Thŷ'r Cwmnïau. Mae eithriadau i hyn yn unol â'r manylion isod. Cewch lunio a chyflwyno dogfennau sy'n ymwneud â chwmnïau Cymreig yn Gymraeg.

Caiff cwmnïau gyflwyno'r dogfennau canlynol mewn ieithoedd eraill os bydd cyfieithiad Saesneg ardystiedig yn cael ei hanfon gyda nhw:

- Penderfyniadau a chytundebau sy'n effeithio ar gyfansoddiad cwmni;
- Contractau'n ymwneud â chlustnodi cyfrannau am gydnabyddiaeth ar wahân i arian parod;
- Yn achos cwmnïau sydd wedi eu cynnwys yng nghyfrifon grwpiau mwy yn yr AEE neu y tu allan i'r AEE, cyfrifon y grŵp ac adroddiad blynyddol y rhiant-ymgymeriad; ac
- Offerynnau arwystlon (neu gopïau o offerynnau arwystlon).

Yn ychwanegol, mae cwmnïau hefyd yn cael ffeilio cyfieithiadau ardystiedig gwirfoddol o unrhyw ddogfen sy'n dod o dan ofynion datgelu'r Gyfarwydddeb Gyntaf ar y Gyfraith Gwmnïau. Mae hyn yn cynnwys:

- Dogfennau cyfansoddiadol fel y memorandwm a'r erthyglau cymdeithasiad;
- Penodiadau cyfarwyddwyr, newid manylion neu derfyniadau;

- Cyfrifon, adroddiadau a ffurflenni blynyddol;
- Hysbysiad ynglŷn ag unrhyw newid yn swyddfa gofrestredig y cwmni;
- Dogfennau dirwyn i ben;
- Dogfennau cyfalaf cyfrannau (cwmnïau cyhoeddus yn unig);
- Dogfennau ynghylch cyfuno a rhannu cwmnïau (cwmnïau cyhoeddus yn unig); a
- Dogfennau ynghylch cwmnïau tramor.

Rhaid i'r cyfieithiad gwirfoddol gyfeirio at ddogfen a gafodd ei chyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau ar 1 Ionawr 2007 neu wedi hynny. Gall cyfieithiadau gwirfoddol gael eu ffeilio yn un o ieithoedd swyddogol yr Undeb Ewropeaidd yn unig a rhaid anfon [Ffurflen 1106](#) i gyd-fynd â nhw.

### **3. Ble galla i gael ffurflenni a chanllawiau?**

Mae hwn yn un o gyfres o ganllawiau gan Dŷ'r Cwmnïau sy'n rhoi canllaw syml i'r Ddeddf Cwmnïau.

Mae [ffurflenni statudol](#) a [chanllawiau](#) ar gael, yn rhad ac am ddim, gan Dŷ'r Cwmnïau. Y ffordd gyflymaf i'w sicrhau yw drwy'n [gwefan](#). Neu fe allwch chi ffonio Tŷ'r Cwmnïau ar 0303 1234 500.

Gellir hefyd gael ffurflenni gan ddogfenwyr cyfreithiol, cyfrifwyr, cyfreithwyr ac asiantiaid ffurfio cwmnïau – cyfeiriadau mewn llyfrau ffôn ar gyfer busnesau.

## **Prif Weithgareddau Busnes**

*Mae'r dosbarthiad hwn yn seiliedig ar Godau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol y Deyrnas Unedig (SIC03) gan gynnwys diwygiadau i is-ddosbarthau a ddaeth i rym o 1 Ionawr 2003 ymlaen.*

<b>Côd Masnach</b>	<b>Grŵp A - Amaethyddiaeth, Hela a Choedwigaeth</b>
0111	Tyfu grawnfwyd a chnydau eraill
0112	Tyfu llysiau a chynhyrchion meithrinfa
0113	Tyfu ffrwythau, cnau, cnydau diod a sbeis
0121	Ffermio gwartheg, ffermio llaeth
0122	Ffermio defaid, geifr, ceffylau, ac ati
0123	Ffermio moch
0124	Ffermio dofednod
0125	Ffermio anifeiliaid eraill
0130	Cnydau ar y cyd ag anifeiliaid, ffermydd cymysg
0141	Gweithgareddau gwasanaethu amaethyddol
0142	Gwasanaethau hwsmonaeth anifeiliaid, nid milfeddygon
0150	Hela a magu anifeiliaid hela, gan gynn. gwasanaethau
0201	Coedwigaeth a chymynu coed
0202	Gwasanaethau cysylltiedig â choedwigaeth a chymynu coed
<b>Côd Masnach</b>	<b>Grŵp B - Pysgota</b>
0501	Pysgota
0502	Gweithredu deorfeydd a ffermydd pysgod
<b>Côd Masnach</b>	<b>Grŵp C - Mwyngloddio a Chwarella</b>
<b>CA Mwyngloddio a Chwarella Defnyddiau Ynni</b>	
1010	Mwyngloddio a chrugio glo caled
1020	Mwyngloddio a chrugio coedlo
1030	Echdynnu a chrugio mawn
1110	Echdynnu petrolewm a nwy naturiol
1120	Gwasanaethau yng nghyswllt echdynnu olew a nwy
1200	Cloddio mwynau wraniwm a thoriwm
<b>CB Mwyngloddio a Chwarella, nid Defnyddiau Ynni</b>	

1310	Cloddio mwynau haearn
1320	Cloddio mwynau metel anfferrus
1411	Chwarela carreg adeiladu
1412	Chwarela carreg galch, gypswm a sialc
1413	Chwarela llechi
1421	Gweithredu pyllau graean a thywod
1422	Mwyngloddio cleiau a chaolin
1430	Cloddio mwynau cemegol a gwrteithiau
1440	Cynhyrchu halen
1450	Mwyngloddio a chwarela arall
